

Ymgynghoriad ar gyfleoedd ymchwil mewn gofal cymdeithasol



Ymgynghoriad ar gyfleoedd ymchwil mewn gofal cymdeithasol

Yn dilyn seminar cenedlaethol yn Rhagfyr 2005, wedi'i drefnu gan Adran Iechyd (DH) Lloegr, Adran Addysg a Sgiliau (DfES) a phedair llywodraeth Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, gofynnwyd i'r Sefydliad er Rhagoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol/ Social Care Institute for Excellence (SCIE) i gynnal ymgynghoriad drwy Brydain ar yr hyn sydd angen ei wneud i gynyddu cyfleoedd ymchwil mewn gofal cymdeithasol. Yn sgil ei rôle allweddol wrth ddatblygu'r gwyddorau cymdeithasol ym Mhrydain, cefnogwyd yr ymgynghoriad gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol/ Economic and Social Research Council (ESRC).

Bwriad yr ymgynghyoriad oedd edrych ar ymchwil o fewn gofal cymdeithasol yn gyffredinol, yn hytrach nag ymchwil mewn meysydd penodol fel gwasanaethau plant a theuluoedd neu iechyd meddwl, er enghraifft.

Gwahoddwyd rhydd-ddeiliaid i gwblhau holidaur, oedd ar gael ar y we ac fel copi caled. Cwblhawyd dau gant a deugain o holiaduron rhwng Gorffennaf a Medi 2006.

Mae'r ymgynghoriad yn adlewyrchu barn pobol sydd a chanddyn nhw ddi-ddordeb mewn

Ymchwil a Datblygu (Y&D) gofal cymdeithasol. Mae wedi'i seilio ar ymatebion i'r holiadur. Ni ddylid ei ystyried yn arolwg cynhwysfawr ar *bawb* sydd yn ymwneud ag Y&D.

Nid bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw gorfodi strwythurau neu ddulliau gweithredu penodol ar ran noddwyr yr ymgynghoriad. Yn hytrach, y bwriad yw tynnu sylw at faterion allweddol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu a chryfhau cyfleoedd ymchwil ac wrth gydlynu cynlluniau drwy Brydain.

Canfyddiadau ac argymhellion

Agwedd Draws-Brydeinig

Roedd pedwar o bob pump a ymatebodd yn cefnogi agwedd draws-Brydeinig wrth ddatblygu cyfleoedd Y&D, ac yn cydnabod fod llawer o bolisiâu a dulliau ymarfer yn gyffredin drwy Brydain. Roedd dros hanner y rhai a ymatebodd yn cefnogi sefydliad cydlynu yn weithredol drwy Brydain i gyd. Fodd bynnag, mynegwyd barn gref y dylai gwledydd osod eu blaenoriaethau a rheoli eu cyllid eu hunain, er mwyn gallu ymateb yn well i anghenion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r strwythur Prydeinig fod yn seiliedig ar strwythur canolog ymhob gwlad, asiantaeth o bosib, a fyddai'n pennu blaenoriaethau ymchwil ac yn dosbarthu arian, ar ôl ymgeisio amdano yn ganolog. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan gorff cydlynu i

ymateb i faterion canolog (fel y Fframwaith Rheoli Ymchwil a chofrestr ymchwil). Byddai'r fframwaith hwn, strwythur neu asiantaeth ymhob gwlad wedi'i gefnogi gan gorff cydlynu Prydeinig, yn cynnig arweiniad a strwythur fyddai'n addas i ofal cymdeithasol.

Argymhellion

- Mae angen datblygu Y&D mewn gofal cymdeithasol ar raddfa Brydeinig.
- Fodd bynnag, mae angen strwythur neu asiantaeth ganolog ymhob gwlad i ddiffinio blaenoriaethau ac ariannu.
- Dylai'r corff cydlynu Prydeinig gadw llygad ar sut mae'r agenda ymchwil ymhob gwlad yn gallu bod o werth ar lefel Brydeinig hefyd a chadw golwg ar faterion strwythurol (fel y Fframwaith Rheoli Ymchwil a chofrestr ymchwil).

Ariannu ymchwil

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad fod ariannu yn gyfrifoldeb y dylid ei rannu. Fodd bynnag, dylid cofio fod gan rai asiantaethau ddim mo'r gallu neu'r adnoddau i gyfrannu yn ariannol.

Roedd teimlad fod angen Y&D ar gynllunio cenedlaethol, a theimlad mai'r llywodraeth yn ganolog 'ddylai roi arweinaid startegol yn hyn o beth.

Dylid cynnwys trawstoriad eang o asiantaethau wrth osod blaenoriaethau Y&D heb fod angen iddynt o angenrheid gyfrannu at gyllid. Mae gan lawer o asiantaethau sydd heb gyllid digonol role bwysig wrth i agenda Y&D gael ei lunio.

Gan fod cynifer o bobl ynghlwm wrth ofal cymdeithasol mae peryg y gallai'r agenda Y&D ddatblygu'n rhanedig iawn. Bydd angen i asiantaethau cenedlaethol Y&D gofal cymdeithasol gynnig arweiniad cryf i osgoi hyn.

Argymhellion

- Dylid ystyried ariannu Y&D gofal cymdeithasol fel cyfrifoldeb ar bawb sydd a diddordeb yn y maes.
- Mae gan y llywodraeth ganolog rôle strategol wrth ddatblygu ariannu Y&D i faterion yn ymwneud â chynllunio cenedlaethol.
- Dylai darparwyr ystyried sut gallan nhw gyfrannu at Y&D, drwy neilltuo rhan o'u cyllideb a/ neu ystyried sut gallan nhw hysbysu cyrff cenedlaethol am eu blaenoriaethau Y&D.
- Nid eu gallu i gyfrannu yn ariannol 'ddylai benderfynu pa asiantaethau 'all gyfrannu at y broses o benderfynu ar flaenoriaethau Y&D.
- Dylai asiantaethau Y&D cenedlaethol gynnig arweinaid cryf er mwyn osgoi rhaniadau wrth lunio'r agenda Y&D.

Modelau ar gyfer sefydliadau a pherthynas gydag iechyd

Nod oedd consensws clir ymhlith y rhai a ddychwelodd yr holidaur ynghylch perthnasedd modelau iechyd wrth drefnu Y&D. Roedd rhai o'r farn y byddai manteision o ddilyn modelau o'r byd iechyd. Roedd eraill yn credu fod gan ofal cymdeithasol nodweddion penodol y gellid eu colli pe bae modelau sydd eisoes ar waith yn cael eu hefelychu. Roedd gweithwyr awdurdodau iechyd a ymatebodd yn arbennig o amheus o ddefnyddioldeb strwythurau iechyd.

Fodd bynnag, hyd yn oed pan oedd y pobl a ymatebodd yn credu fod gofal cymdeithasol yn faes penodol ag angen strwythurau penodol, roedd cytundeb y gellid dysgu gwersi o'r maes iechyd ac y dylid integreiddio agendau Y&D gofal cymdeithasol ac iechyd.

Roedd amrywiaeth barn ynghylch y syniad o drefnu o gwmpas nifer fach o ganolfannau rhagoriaeth ynteu rwydweithiau. Mae'n debyg fod angen cyfuniad o'r ddau.

Nid oedd yr holidaur yn gofyn am farn ar bynciau ymchwil i'r canolfannau neu rwydweithiau. Bydd angen trafodaeth bellach ar hyn.

Argymhellion

- Gall gofal cymdeithasol ddysgu oddi wrth iechyd ynghylch trefnu Y&D, ond dyw modelau iechyd ddim o angenrhaidd yn addas ar gyfer gofal cymdeithasol.
- Dylai Y&D gofal iechyd gyd-weithio yn agos gydag Y&D iechyd er mwyn hybu gwasanaeth integredig.
- Mae ar Y&D gofal cymdeithasol angen cyfuniad o ganolfannau rhagoriaeth a rhwydweithiau er mwyn cael y gorau o'r ddau ddull.
- Mae angen ymgynghori'n bellach i benderfynu ar bynciau ymchwil.

Cynnwys pobl mewn ymchwil a hyfforddiant

Mae cefnogaeth gref i hyfforddi pobol er mwyn gwella ansawdd, perthnasedd a defnydd ymchwil. Byddai hyn yn gwneud ymchwilwyr yn fwy gwybodus am arferion gweithio ar lawr gwlad a gweithwyr yn y maes, boed yn ddarparwyr, gweuthurwyr polisi neu reolwyr, yn fwy gwybodus am yr ymchwil sydd ar gael.

Roedd pob sector o'r maes gofal cymdeithasol yn cefnogi'r angen am hyfforddiant.

Roedd cefnogaeth helaeth hefyd i'r angen i gynnwys pobol sy'n defnyddio gwasanaethau, a'r rheiny sy'n eu darparu, er mwyn gwella'r berthynas rhwng ymchwil ac ymarfer.

Argymhellion

- Byddai buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddi ymchwilwyr, ymarferwyr, gwneuthurywr polisi a rheolwyr o fantais fawr i'r sector gofal cymdeithasol.
- Dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a phobl sy'n eu darparu chwarae rôle ganolog wrth wella'r berthynas rhwng ymchwil ac ymarfer.

Trafodaeth ddeallus

Codwyd cwestiynau yn yr ymgynghoriad yngylch cychwyn trafodaeth gall ar y materion hyn. Er iddyn nhw ymweld â'r safle gwe, roedd 194 o bobl a benderfynodd beidio â chwblhau'r holiadur. Roedd nifer o bobl yn anghyffyrddus dewis ymatebion oedd wedi'u côdio o flaen llaw.

Mae'n debyg y bydd angen mwy o wybodaeth a dull gwahanol o fesur barn yn y camau nesaf wrth ddatblygu. Drwy hyn, gellir sicrhau cwestiynau cliriach ac atebion llawnach.

Byddai'n fanteisiol i gynnal ymgynghoriad i benderfynu ar flaenoriaethau penodol Y&D er mwyn llywio'r drafodaeth.

Mae prinder data yn y maes, 'fyddai'n gallu llywio'r trafod ac adnabod tueddiadau. Byddai'n fantesiol sefydlu gwell diffinaid o Y&D mewn gofal cymdeithasol cyn bwrw 'mlaen gyda'r

gwaith datblygu, a hefyd sefydlu mecanwaith i fonitro buddsoddiad yn y maes.

Argymhellion

- Byddai'r drafodaeth ar Y&D gofal cymdeithasol yn manteisio o fuddsoddiad sylweddol yn yr ymdrech i ddsbarthu gwybodaeth ymhlith pobl yn y maes a dull gwahanol o gasglu barn yn y cam nesaf.
- Mae angen ymgynghoriad pellach i bennu pynciau ymchwil pwysicaf Y&D gofal cymdeithasol.
- Dylai asiantaethau gytuno ar ddiffiniad o Y&D gofal cymdeithasol, ac ar ddulliau o fesur buddsoddiad, er mwyn sefydlu dull cyson o fonitro.

Ymgynghoriad ar gyfleoedd ymchwil mewn gofal cymdeithasol

Mae'r adroddiad llawn ar gael mewn print
gan SCIE ac ar ein safle gwe

Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE ar
gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar fformatau
gwahanol ar gais.

Social Care Institute for Excellence

Goldings House, 2 Hay's Lane

Llundain SE1 2HB

ffon 020 7089 6840

ffacs 020 7089 6841

ffon tecst 020 7089 6893

www.scie.org.uk

Registered charity no. 1092778

Company registration no. 4289790